## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## STRWYTHURAU RHEOLI GWLEIDYDDOL - YSTYRIED CANLYNIADAU'R GWAITH YMGYNGHORI

### Diben

1. Cyflwynir y papur hwn er gwybodaeth.

### Crynodeb

2. Bwriedir i'r papur hwn roi gwybod i'r Pwyllgor am natur yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghori ar Ran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000. **Gan na fydd y gwaith ymgynghori'n dod i ben hyd 28 Chwefror, mae'r papur hwn yn trafod yr ymatebion a gafwyd adeg ysgrifennu'r papur.** (Mae'r Cynulliad hefyd yn cynnal cynhadledd ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr Archwiliad Dosbarth a Syniad ar 28 Chwefror a fydd yn canolbwyntio ar Ran 2 y Ddeddf ac yn cyfrannu ymhellach at yr ymgynghori).

### Cefndir

3. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 Gydsyniad y Frenhines ar 28 Gorffennaf 2000. Daw ei darpariaethau i rym yng Nghymru flwyddyn wedi'r dyddiad hwnnw, gan gynnwys yr amryw eitemau o is-ddeddfwriaeth a fydd yn cael eu hystyried gan y Cynulliad.

4. Cynhyrchwyd Canllawiau Drafft ar gyfer Cymru ar Ran 2 y Ddeddf (sy'n trafod strwythurau rheoli gwleidyddol) ym mis Medi 2000. Er y gofynnwyd i bobl ymateb yn wreiddiol erbyn diwedd mis Tachwedd 2000, cafwyd estyniad hyd 28 Chwefror er mwyn caniatáu amser i ystyried papurau atodol ar Hawl i Wybodaeth, Pwyllgorau Ardal a Threfniadau Eraill (Y Pedwerydd Dewis), a gyflwynwyd yn sgil polisïau'r Cytundeb Partneriaeth. **Dosbarthwyd yr holl bapurau hyn i aelodau'r Pwyllgor.**

5. Bu ymgynghori hefyd ynghylch offerynnau statudol drafft cysylltiedig yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r broses honno'n parhau.

### Ystyried

6. Mae nifer o awdurdodau lleol a chyrff eraill eisoes wedi ymateb. Gellir rhannu'r materion hynny y buont yn canolbwyntio arnynt fel a ganlyn:

- Y Pedwerydd Dewis
- Hawl i Wybodaeth
- Rôl pwyllgorau craffu
- Ymgynghori ynghylch y strwythurau newydd

***Y Pedwerydd Dewis***

7. Dosbarthwyd y papur ymgynghori *"Y Pedwerydd Dewis": Trefniadau Eraill Posibl o dan Adran 32 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000* yn wythnos gyntaf mis Ionawr 2001.

8. Cymysg fu'r ymateb i gynigion y Pedwerydd Dewis. Cafwyd sylwadau cefnogol gan yr awdurdodau hynny a oedd yn ei chael yn anodd cymhwyso'r gofynion deddfwriaethol o ran trefniadau gweithredol (megis cyfyngu maint pwyllgorau ardal i hyd at 40% o boblogaeth neu ardal yr awdurdod, neu gyfyngu maint y cabinet i 10) at amgylchiadau lleol. Dywedodd awdurdodau eraill nad oedd y trefniadau'n ddigon hyblyg, gan ddweud y byddai'n well ganddynt weld strwythurau mwy ystwyth. Codwyd y pwynt bod Canllawiau'r DETR ar Ran 2 yn llai caeth mewn rhai ffyrdd ynghylch strwythur pwyllgorau.

9. Mae'r Cynulliad o'r farn nad yw'n briodol cymharu prif awdurdodau unedol Cymru ag ardaloedd sirol bach yn Lloegr mewn awdurdodau dwy haen (sy'n cael defnyddio trefniadau eraill). Rhoddwyd mwy o bwerau o lawer i awdurdodau lleol Cymru ac mae hynny'n awgrymu bod angen diffinio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n gliriach yn y rheoliadau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau Cymru wedi cymryd camau breision tuag at fabwysiadu gweithdrefnau gweithredol. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad hefyd yn cydnabod bod lleiafrif bychan o awdurdodau'n ei chael yn anodd cydymffurfio â'r gofynion o ran trefniadau gweithredol.

10. Roedd yn bosibl ac yn ymarferol felly llunio trefniadau eraill a oedd yn ateb eu hanghenion hwy'n benodol ond y gallai awdurdodau eraill eu defnyddio.

11. Bu beirniadu hefyd ar y cynigion i gyfyngu maint y Pwyllgor Cynllunio i 20% o aelodau'r awdurdod a gwneud Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio'n aelod o Fwrdd y Cyngor. Mae'r cyfyngu ar faint y pwyllgor hefyd yn gyson â'r angen i wneud gweithdrefnau'r cynghorau'n fwy effeithlon a thryloyw drwy fireinio strwythur y pwyllgorau. Gallai'r union faint fod yn destun trafod.

12. O dan strwythurau gweithredol, ni fyddai penderfyniadau cynllunio'n swyddogaeth weithredol. Ni fyddai felly'n briodol i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio fod yn aelod o'r Weithrediaeth. O dan drefniadau eraill, fodd bynnag, nid oes cymaint o angen gwahaniaethu fel hyn. Byddai'n dda gennym glywed barn y Pwyllgor ynghylch hyn.

13. Mae'r canllawiau drafft ar drefniadau eraill posibl yn nodi na ddylai cadeirydd y prif bwyllgor craffu berthyn i'r un blaid wleidyddol â chadeirydd y Bwrdd Strategol. Byddai'n dda gennym

glywed barn y pwyllgor ynghylch a ddylid argymell hynny hefyd ar gyfer trefniadau gweithredol.

14. Mae papur ymgynghori'r Pedwerydd Dewis yn nodi bod modd cyfeirio penderfyniadau'r Bwrdd sydd y tu allan i fframwaith polisi ac ariannol y cyngor at y cyngor llawn. Un pwynt a godwyd yn ystod yr ymgynghori yw a ddylid ymestyn y pwerau "galw i mewn" er mwyn i'r cyngor llawn allu galw unrhyw un o benderfyniadau'r Bwrdd i mewn neu adolygu'r penderfyniadau hynny.

15. Mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng "goruchafiaeth" cydnabyddedig y cyngor llawn ac effeithlonrwydd y ffordd y gwneir penderfyniadau. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r Bwrdd allu arfer y swyddogaethau a ddirprwywyd iddo gan y cyngor. Byddai'n dda gennym glywed barn y Pwyllgor.

***Hawl i Wybodaeth***

16. Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi y bydd gofyn i gabinetau Cynghorau gyfarfod yn agored o dan amodau'r Deddf Llywodraeth Leol (Hawl i Wybodaeth). Ceir manylion y trefniadau hyn ym mhennod 5 diwygiedig y Canllawiau Drafft ar Ran 2, a ddosbarthwyd ddechrau mis Ionawr 2001.

17. Mae'r rhan fwyaf o'r rheiny sydd wedi ymateb yn ysgrifenedig hyd yma'n cefnogi safbwynt y Cynulliad. Mae llawer hefyd yn gryf o blaid rhoi disgresiwn i'r awdurdodau yn hyn o beth. Soniwyd y byddai gorfodi gweithrediaethau i wneud penderfyniadau'n gyhoeddus yn golygu y byddai'r penderfyniadau "go iawn" yn cael eu gwneud yn grwpiau'r pleidiau y tu allan i strwythur cyfansoddiadol yr awdurdod heb i swyddogion fod yn bresennol i roi cyngor iddynt.

18. Ar y cyfan, mae'r Cynulliad o'r farn y byddai'r hwb i ryddid gwybodaeth a ddeuai yn sgil gorfodi cabinetau i wneud eu penderfyniadau a rhoi rhesymau drostynt yn llygad y cyhoedd yn drech na'r ddadl honno. Er mwyn caniatáu i weithrediaethau drin a thrafod yn breifat gyda chyngor swyddogion, gellid diwygio canllawiau'r Cynulliad er mwyn nodi'n glir y caiff aelodau'r Cabinet gwrdd yn breifat er mwyn trafod, gyda swyddogion yn bresennol i roi cyngor iddynt, ar yr amod nad ydynt yn gwneud penderfyniadau yn y cyfarfodydd hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr eithriadau.

***Craffu***

19. Mae'r sylwadau ynghylch craffu'n canolbwyntio ar ddau faes: yr angen i bwysleisio'i swyddogaeth datblygu polisi a darparu staff cymorth ar gyfer pwyllgorau craffu.

20. Mae Adran 21 y Ddeddf yn nodi'n glir bod dwy brif swyddogaeth i bwyllgorau trosolwg a chraffu: yn gyntaf, craffu ar benderfyniadau'r weithrediaeth ac yn ail, cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i weithrediaeth yr awdurdod neu'r cyngor llawn.

21. Mae'r pwyllgorau craffu'n holl bwysig o ran sicrhau bod yr awdurdod yn ceisio gwella'r hyn y mae'n ei wneud o hyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt Gwerth Gorau, lle gallai pwyllgorau trosolwg a chraffu fod yn allweddol o ran sicrhau bod aelodau'r weithrediaeth a swyddogion yn mynd ati o ddifrif i ddod o hyd i'r dewisiadau gorau ar y cyfan i'r gymuned leol, yn hytrach na dim ond chwilio am fân welliannau i'r gwasanaethau a gynigir eisoes.

22. Mae'r Canllawiau Drafft yn nodi'n glir mai mater i awdurdodau unigol yw penderfynu a ddylid clustnodi swyddogion yn arbennig i wneud gwaith craffu. Mae'n rhaid ystyried polisi ac adnoddau yn hyn o beth. Os teimla awdurdod na all fforddio neilltuo staff ar gyfer y gwaith hwn, bydd yn rhaid serch hynny hyfforddi staff yn briodol i gynorthwyo'r gwaith a bydd yn rhaid i'r bobl hynny allu gwahanu'r gwaith a wneir i gynorthwyo'r pwyllgorau craffu oddi wrth unrhyw waith arall a wneir ar ran yr awdurdod neu ei weithrediaeth.

***Gwaith ymgynghori'r awdurdodau lleol***

23. Soniodd nifer o awdurdodau am bryderon ynghylch y Canllawiau ar ymgynghori am ddau reswm: yn gyntaf, oherwydd y gost a nifer yr adnoddau y byddai angen eu defnyddio, ac yn ail, am eu bod eisoes wedi gwneud hyn unwaith.

24. Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf i awdurdodau lleol ymgynghori â'u hetholwyr a charfanau perthnasol eraill cyn cyflwyno eu cynigion i'r Cynulliad (cyn diwedd mis Ionawr y flwyddyn nesaf). Mae'n amlwg fod yn rhaid buddsoddi adnoddau er mwyn gwneud hynny. Fodd bynnag, bydd y Cynulliad yn llunio canllawiau ynghylch cynnal gwaith ymgynghori'n ddiweddarach eleni ac mae'n cydweithio â'r Archwiliad Dosbarth mewn seminar a gynhelir ym mis Mai. Gall awdurdodau feithrin perthynas â'u hetholwyr mewn sawl ffordd, rhai ohonynt yn fwy darbodus, gan ystyried gwaith ymgynghori blaenorol.

25. Er bod rhai awdurdodau wedi ymgynghori'n drwyadl cyn cyflwyno trefniadau gweithredol peilot, fe wnaethpwyd y gwaith hwnnw cyn i'r ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei chymeradwyo. O ganlyniad, ni fu modd cynnig yr holl ddewisiadau sydd ar gael i'r etholwyr o dan y Ddeddf yn y broses ymgynghori, ac mae'n rhaid gwneud hynny nawr.

**Cydymffurfio**

26. Mae Adran 106 y Ddeddf, y mae'r Cynulliad eisoes wedi ei rhoi ar waith, yn galluogi'r Cynulliad i gyflwyno'r eitemau o is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n sail i'r gwaith ymgynghori hwn. Cyhoeddir canllawiau ar Ran 2 y Ddeddf o dan Adran 38.

**Gweithredu**

27. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar gynnwys y papur hwn ac unrhyw fater arall sy'n berthnasol i'r ymgynghori.

**Cyswllt**

Frank Cuthbert LGM2